

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 37 (Cyfnewidfa'r Pil)
hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa
Margam), Bwrdeistref Sirol Pen-y-
bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)
2025

The M4 Motorway (Junction 37
(Pyle Interchange) to Junction 38
(Margam Interchange), Bridgend,
Bridgend County Borough)
(Temporary Traffic Prohibitions
and Restrictions) Order 2025

Gwnaed 22 Mai 2025

Made 22 May 2025

Yn dod i rym 2 Mehefin 2025

Coming into force 2 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M4 motorway, are satisfied that traffic on a specified lengths of the motorway should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), 14 and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 37 (Cyfnewidfa'r Pil) hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Margam), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Mehefin 2025.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 37 (Pyle Interchange) to Junction 38 (Margam Interchange), Bridgend, Bridgend County Borough) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2025 and this Order comes into force on 2 June 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, section 1(1). By virtue of S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r lluwyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 18:00 o’r gloch ar 2 Mehefin 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, ar gerbyttffordd tua’r gorllewin na cherbyttffordd tua’r dwyrain y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn. Pennir y llwybrau eraill hefyd yn yr un Atodlen.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r draffordd a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 5, 6, 7 ac 8 yn weithredol.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales Motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 2 June 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, on either the westbound or eastbound carriageways of the lengths of the motorway specified in Schedule 1 to this Order. Alternative routes are also specified in the same Schedule.

4. No person may, during the works period, use or permit the use of a motor vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the motorway specified in Schedules 2 and 3 to this Order during such times as the restrictions referred to in articles 5, 6, 7 and 8 are in operation.

5. No person may, during the works period, other

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ac eithrio cerbyd esempt, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr, 40 milltir yr awr neu 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

7. Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw'n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur ar lôn allanol cerbyttffordd tua'r gorllewin y draffordd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

8. Caiff y llain galed sy'n gyfagos i'r darnau o draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fod ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig gan bob cerbyd modur.

Atal dros dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

10. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(1) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbyttffordd tua'r gorllewin a cherbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn, a chyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed benodedig gan erthygl 11.

Cymhwyso

11. —(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

than an exempted vehicle, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour, 40 miles per hour or 30 miles per hour on the lengths of the

6. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited on the westbound carriageway, but pursuant to article 11, not prohibited in the eastbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle in the offside lane of the eastbound carriageway of the motorway in any direction other than westwards.

7. Whilst movement of traffic is, by article 3, prohibited on the eastbound carriageway, but pursuant to article 11, not prohibited in the westbound carriageway, no person may, during the works period, drive any motor vehicle on the offside lane of the westbound carriageway of the motorway in any direction other than eastwards.

8. The hard shoulder adjacent to the lengths of motorway specified in Schedule 3 to this Order may be available for use as a traffic lane by all motor vehicles.

Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in article 5 are in operation.

10. Regulation 5 of the Motorways Traffic (England and Wales) Regulations 1982(1) and the provisions of regulation 9 of those Regulations relating to the driving of vehicles are suspended insofar as they apply to the hard shoulder which is contiguous with the lengths of the westbound and eastbound carriageways of the motorway specified in Schedule 3 to this Order and traffic is, by article 11, directed to use the specified hard shoulder.

Application

11. —(1) The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

12. The maximum duration of this Order is 18 months.

(1) O.S. 1982/1163

(1) S.I. 1982/1163

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 May 2025

Nicci Hunter
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 May 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro
a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 37 hyd at y pwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 38 yn ymuno â'r draffordd.
2. Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 38 hyd at y pwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 37 yn ymuno â'r draffordd.
3. Llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fyddai ymadael â'r draffordd wrth Gyffordd 37, cymryd yr 2^{il} allanfa i'r A4229, yna ymuno â'r A48 tua'r gorllewin yn y Pil a pharhau ar hyd yr A48 nes ailymuno â'r draffordd wrth Gyffordd 38. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50mya, 40mya a 30mya a
Dim Goddiwedd

1. Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno wrth Gyffordd 36 hyd at bwynt ar ben dwyreiniol y parth terfyn cyflymder 50mya presennol a leolir 400 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 40.
2. Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt ar ben dwyreiniol y parth terfyn cyflymder 50mya presennol a leolir 400 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 40 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 36 ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain.

SCHEDULE 1
Temporary Prohibition of Vehicles
and Alternative Routes

1. The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from Junction 37 westbound off-slip to the point where Junction 38 westbound on-slip joins the motorway.
2. The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from Junction 38 eastbound off-slip to a point where the Junction 37 eastbound on-slip joins the motorway.
3. Alternative route for westbound traffic would be leaving the motorway at Junction 37, taking 2nd exit onto the A4229, then joining the A48 westbound at Pyle and continue along the A48 until rejoining the motorway at Junction 38. Vice versa for eastbound traffic.

SCHEDULE 2
50mph, 40mph & 30mph Speed limit and
No Overtaking

1. The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the entry slip at Junction 36 to a point at the eastern extent of the existing 50mph speed limit zone located 400 metres east of Junction 40 exit slip nosing.
2. The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from a point at the eastern extent of the existing 50mph speed limit zone located 400 metres east of Junction 40 entry slip nosing to a point at the nosing of the Junction 36 exit slip on the eastbound carriageway.

ATODLEN 3

Gwrthlif dros dro, caniatáu traffig ar y lleiniau caled a dim goddiwedd

1. Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 37 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 38.
2. Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o bwynt wrth drwyniad ffordd ymadael Cyffordd 38 hyd at bwynt wrth drwyniad ffordd ymuno Cyffordd 37.

SCHEDULE 3

Temporary Contraflow, Hard Shoulder trafficking and No Overtaking

1. The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from a point at the nosing of the Junction 37 exit slip to a point at the nosing of the Junction 38 entry slip.
2. The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from a point at the nosing of the Junction 38 exit slip to a point at the nosing of the Junction 37 entry slip.